# GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO) (GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 1) 2023

1. Ar 22 Mawrth 2023 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, greu Gorchymyn i osod y cyfyngiadau parcio a nodir yn yr atodlen isod.
2. Daw'r Gorchymyn i rym ar 27 Mawrth 2023 neu ar y dyddiadau y mae'r arwyddion a'r marciau ffordd yn cael eu rhoi yn eu lle, p'un bynnag sydd hwyraf ac fe'i gelwir yn "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 1) 2023".
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r cynlluniau sy'n dangos yr ardal yr effeithir arni ar wefan y Cyngor yn [www.bromorgannwg.gov.uk](http://www.bromorgannwg.gov.uk)
4. Os dymunwch herio dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos i 27 Mawrth 2023, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Mae'r Gorchymyn Rheoli Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn:

**Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013**

## ATODLEN

**Mewnosoder i atodlenni map AY50**

**Cynnig Gwahardd Aros, Llwytho a Dad-lwytho ar Unrhyw Adeg**

**Ffordd y Mileniwm**

Ar yr ochr dde-ddwyreiniol, o'r gyffordd ag ochr dde-orllewinol Neptune Road i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o oddeutu 158m.

Ar yr ochr ogledd-orllewinol, o'r gyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Stryd Sant Baruc i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o tua 78m.

Ar yr ochr ogledd-orllewinol, o'r gyffordd ag ochr dde-orllewinol Stryd Sant Baruc i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o oddeutu 51m.

**Neptune Road**

Ar yr ochr ogledd-ddwyreiniol o'r gyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Ffordd Y Mileniwm i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o oddeutu 72m.

Ar yr ochr dde-orllewinol o'r gyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Ffordd Y Mileniwm i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o oddeutu 54m.

Ar yr ochr dde-orllewinol o bwynt oddeutu 62m i'r de-ddwyrain o'r gyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Ffordd Y Mileniwm i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o oddeutu 25m.

**Stryd Sant Baruc**

Ar yr ochr ogledd-ddwyreiniol, o'r gyffordd ag ochr ogledd-orllewinol Ffordd y Mileniwm i gyfeiriad y gogledd am bellter o tua 60m.

Ar yr ochr dde-orllewinol o'r gyffordd ag ochr ogledd-orllewinol Ffordd y Mileniwm i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o tua 40 metr.

Ar yr ochr dde-orllewinol, o bwynt oddeutu 50m i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd ag ochr ogledd-orllewinol Ffordd y Mileniwm i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o tua 20m.

**Ffordd ddi-enw yn arwain i Ysgol Gymraeg Sant Baruc**
Ar y ddwy ochr o'r gyffordd ag ochr dde-orllewinol Stryd Sant Baruc i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o oddeutu 15m.

Dyddiad: 23 Mawrth 2023.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg, Depo’r Alpau, Gwenfô CF5 6AA